Ceisiadau Cyfredol

Disgrifiad: Canolfan Llosgi Gwastraff Bach sy'n cynnwys y pyrolysis o deiars gwastraff. Bydd allyriadau i'r awyr, dŵr, sŵn a materion eraill yn cael eu rheoli gan yr hawlen.

Lleoliad: Gweithdai Byass, Heol y Doc, Port Talbot SA13 1RS

Ymgeisydd: Tyregen UK Ltd.

Mae'r cyngor wedi derbyn cais am hawlen amgylcheddol ar gyfer Canolfan Llosgi Gwastraff Bach gan Tyregen UK Ltd. Mae'r cyngor wedi ystyried y cais ac wedi dod i gasgliad drafft i wrthod yr hawlen. Amlinellwyd y rhesymau dros y penderfyniad drafft hwn yn y ddogfen penderfyniad drafft y gellir ei darllen trwy ddilyn y ddolen isod:
Gweld y Penderfyniad Drafft

Gosodwyd copi o'r penderfyniad drafft yn y gofrestr gyhoeddus hefyd ac mae ar gael ar gyfer archwiliad cyhoeddus, am ddim, yn Is-adran Iechyd yr Amgylchedd Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot, Y Ceiau, Ffordd Brunel, Castell-nedd SA11 2GG. Gellir gweld y penderfyniad drafft yn ystod oriau swyddfa arferol 8.30.am tan 5.00pm. (4.30 p.m. dydd Gwener) drwy apwyntiad.

Gellir anfon cynrychioliadau ysgrifenedig am y penderfyniad drafft i Is-adran Iechyd yr Amgylchedd yn Y Ceiau trwy'r post neu trwy e-bostio epmt.consult@npt.gov.uk.

Bydd unrhyw sylwadau ysgrifenedig yn cael eu gosod ar y gofrestr gyhoeddus oni bai eu bod yn cynnwys datganiad sy'n nodi nad ydym i wneud hynny. Os oes dymuniad o'r fath, bydd y gofrestr yn cynnwys nodyn bod cynrychioliadau wedi cael eu gwneud nad ydynt ar y gofrestr oherwydd y dymuniad hwnnw.

Y dyddiad cau ar gyfer derbyn cynrychioliadau yw 2 Tachwedd 2018